2020/2021

# Adroddiad Sefydliadol #8

Y cyfnod dan sylw: 1 Ionawr – 31 Mawrth 2021



Cwrs Egin Awduron , Tŷ Newydd, 2019

Llenyddiaeth Cymru
Literature Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau**
Diweddariad COVID-19 .......................................................................... 3
Uchafbwyntiau Sefydliadol, Gweithgaredd a Gweithredol ...................... 4

**Effaith Sefydliadol**
Y newid tymor hir y byddwn yn eu cynhyrchu i Gymru............................ 7

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleientiaid.................................................................................... 7

**Allbynnau Sefydliadol**
Sylw i darged sydd heb ei gyflawni *NEWYDD........................................ 8
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd ..... 10
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu.... 13

**Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru**
Ymgysylltu â'n sector........................................................................ 20

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu.............................................................. 21
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau ..............................................22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu.**

- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 2** (2020/2021) o 4 blynedd y Cynllun Strategol. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn**, mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol.**

- Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn derbyn yr adroddiad hwn, ynghyd ag un arall ar lefel prosiect mwy manwl, sy'n canolbwyntio ar gynnydd misol tuag at Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a gwersi i'w dysgu o brosiectau. Gall y Bwrdd Rheoli wneud cais i weld y ddogfen hon yn ôl yr angen, ac mae'n bosib y byddant yn dewis gwneud hynny'n achlysurol fel arfer da.

- Mae'r **adroddiad hwn yn cynnwys targedau wedi eu diweddaru ar gyfer 2020/2021.** Gan ystyried ein cynnydd yn ystod blwyddyn 1 ochr yn ochr ag ansicrwydd ein rhaglen weithgaredd o ganlyniad i COVID-19, aethom ati i ganfod set newydd o Amcanion Sefydliadol ar gyfer blwyddyn 2. Yn ogystal, yn hytrach na chynnig cynnydd cronedig, yn yr adroddiad hwn rydym **yn hytrach wedi nodi eglurhad dros y targedau** sydd wedi eu haddasu

# Diweddariad **COVID-19**

## Dechrau'r flwyddyn ariannol newydd yn uchelgeisiol, yn wyliadwrus ac yn gadarn ar sail yr hyn rydyn ni wedi'i ddysgu dros y flwyddyn ddiwethaf.

Ar ddechrau blwyddyn ariannol newydd, roedd Llenyddiaeth Cymru yn hynod o falch o weld bod cyfyngiadau COVID-19 yn llacio'n raddol yng Nghymru, ac mae hynny'n fuddiol i'r sefydliad ei hun ac i'r sector yn ehangach. Mae'r cyhoeddiadau pwysig hyn wedi ein galluogi i adennill colledion incwm sylweddol drwy ddefnyddio encilion **Nant a Thŷ Newydd** ac archebion gwyliau preifat i gefnogi ein rhaglen o weithgareddau yn 2021/2022. Mae ein Beirdd Plant wedi parhau i gefnogi disgyblion, rhieni ac athrawon wrth i ysgolion ledled Cymru ailagor. Ym mis Mawrth, i ddathlu Awr y Ddaear, ffurfiwyd partneriaeth rhwng prosiect **Bardd Plant Cymru** a WWF Cymru, gan weithio gyda disgyblion blwyddyn chwech o'r Rhyl, Aberteifi a Threorci i greu cerddi ar ffurf celf gyhoeddus a oedd yn adlewyrchu gobeithion plant am ddyfodol gwell i fyd natur a newid hinsawdd yng Nghymru.

Rydyn ni wedi ymrwymo o hyd i'n **cynnig hwyluso yn y sector.** Ar hyn o bryd, ein blaenoriaeth yw cefnogi'r sefydliadau a'r rhwydweithiau sy'n wynebu'r risg fwyaf oherwydd COVID-19. Mae ein haelodau o staff yn mynychu ac yn cymryd rhan yn gyson mewn **trafodaethau â'r sector ehangach,** gan gynnwys Cynghrair Diwylliant Cymru a What Next? Cymru. O ganlyniad, rydyn ni nawr yn gweithio gydag eraill yn y sector i ddatblygu fframwaith **Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau** i'r celfyddydau yng Nghymru.

Mae pwyslais wedi'i roi ar ein **rhaglen weithredol** gan ein bod yn defnyddio amser a neilltuir fel arfer i ddarparu gweithgareddau ar ddatblygiadau mewnol. Mae tri **apwyntiad staffio newydd** wedi'u cadarnhau, mae **sesiynau hyfforddiant** a **diwrnodau cynllunio creadigol i'r holl staff** wedi'u cynnal, ac mae **system adolygu datblygiad proffesiynol** wedi'i chyflwyno. Nod y cyfan yw sicrhau ein bod yn glynu wrth y strategaethau a'r targedau a geir yn ein Cynllun Strategol.

Yn hynny o beth, byddwn nawr yn dechrau ar y gwaith o ddatblygu ein **Cynllun Strategol 2022-25,** ac mae'n rhaid cyflwyno drafft terfynol o hwnnw i Gyngor Celfyddydau Cymru erbyn mis Medi. Dros y misoedd nesaf, bydd cyfle i bob aelod o staff a phob Cyfarwyddwr ymuno â **sesiynau creadigol** i drafod y Cynllun Strategol newydd a chynnig eu syniadau eu hunain ynghylch sut y gallen ni a sut y dylen ni ailflaenoriaethu pethau.

Beth bynnag a ddaw yn sgil y flwyddyn ariannol newydd hon, rydyn ni'n hyderus ein bod yn teithio i'r cyfeiriad strategol cywir, a hynny mewn ffordd uchelgeisiol, gwyliadwrus a chadarn. Mae hynny wedi'i seilio ar y gwersi rydyn ni wedi'u dysgu dros y flwyddyn ddiwethaf, a fydd yn bwydo i mewn i gyfnod newydd a chyffrous i'r sefydliad wrth inni ddiffinio ein cynlluniau newydd a fydd o fudd i **gynulleidfaoedd creadigol, awduron a darllenwyr Cymru.**




Map Ymwelwyr yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Cafodd swyddi **Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr** a'r **Pennaeth Gweithrediadau a'r Dirprwy Brif Weithredwr** eu hysbysebu drwy broses recriwtio agored.
- Lansiwyd **Adroddiad Canol Tymor 2019/2020** a'i rannu ag amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru a'r tu hwnt. Mae'r adroddiad yn dangos sut rydyn ni'n parhau i gyrraedd ein targedau a chyflawni'r amcanion a geir yn ein Cynllun Strategol uchelgeisiol.

## Gweithgareddau

- Cyhoeddwyd mai Connor Allen a Bev Lennon oedd enillwyr **Gwobr Rising Stars Cymru 2021,** cynllun sy'n cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Firefly Press.
- Rhyddhawyd tri fideo newydd fel rhan o gywaith digidol a bontiai'r celfyddydau rhwng Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru a Llenyddiaeth Cymru, sef **Plethu/Weave #2.**
- Cyhoeddwyd enwau panel beirniadu **Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021**, ynghyd â'n partneriaeth ddarlledu â BBC Cymru Wales.
- Lansiodd Eloise Williams, y Children's Laureate Wales, y **prosiect Letters of Kindness** ar Ddiwrnod Llyfr y Byd er mwyn cyd-fynd â dadorchuddio ei blwch post thematig arbennig yng Nghaerdydd.
- Gan weithio mewn partneriaeth â WWF Cymru, hwyluswyd gweithdai barddoniaeth gan Gruffudd Owen, Bardd Plant Cymru, i ddarparu **Prosiect Murluniau Awr y Ddaear.**
- Mewn partneriaeth â Choleg Brenhinol y Seiciatryddion Cymru, rhoddwyd £10,000 i 5 o awduron drwy **gomisiynau digidol** a geisiai gefnogi pobl ar incwm isel.




## Gweithredol

- Cafodd yr holl staff **hyfforddiant gwrth-hiliaeth** gan gydweithfeydd ysgrifennu 'Where I'm Coming From' ac 'Y Stamp'
- Ymunodd **Intern Cyllid** newydd, Charlotte Kirk, a **Chydlynydd Creadigol** newydd, Miriam Sautin, â thîm Llenyddiaeth Cymru.
- Cyflwynodd ein Cydlynydd Cyfathrebu **Ddiwrnod Cynllunio Creadigol** gwych a hwnnw'n gyfle i fyfyrio ar gyflawniadau unigol a sefydliadol. Edrychodd y staff ar ffyrdd o ddatblygu'r addewidion a geir yn ein Hadroddiad Canol Tymor.
- Comisiynwyd y cwmni cysylltiadau cyhoeddus, **Riot Communications**, i gefnogi lansiad Cynrychioli Cymru: Datblygu Awduron o Liw, gan gynnwys creu'r datganiad i'r wasg a chysylltu â'r wasg/cyfryngau.





Darparwyd **Prosiect Murluniau Awr y Ddaear** mewn partneriaeth â WWF Cymru.




Cyhoeddwyd enwau panel beirniadu **Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2021.**




Lansiodd Eloise Williams, y Children's Laureate Wales, **brosiect Letters of Kindness.**




Cyhoeddodd dwy a dderbyniodd **Ysgoloriaethau Awduron** 2020 eu nofelau, gan ennyn clod mawr gan y beirniaid.




Cyhoeddwyd enwau dau enillydd **Gwobr Rising Starts Cymru 2021.**





Rhyddhawyd tri fideo newydd fel rhan o'r prosiect sy'n pontio'r celfyddydau, **Plethu/Weave #2.**



Comisiynwyd **Bardd Cenedlaethol Cymru** gan BT i ddathlu rôl allweddol canolfannau cyswllt wrth gadw pobl mewn cysylltiad â'i gilydd




Rhoesom gefnogaeth i Seminar Lenyddol y British Council, i ddathlu bod 2021 yn **flwyddyn Cymru yn yr Almaen.**




Parhaodd Tŷ Newydd i gynnig ei **gyrsiau blasu rhithwir** poblogaidd.

**Dywedwyd bod angen inni fod yn fwy ymwybodol o adborth gan y sector yng Nghymru a'r tu hwnt, gan ymateb yn well i hwnnw.**

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy fod yn fwy systematig wrth holi barn rhanddeiliaid, a sicrhau bod eu hadborth yn llifo yn ôl drwy'r sefydliad ac yn sail i'r penderfyniadau a wneir.

**Ers mis Ebrill 2019…**

**233**
o ymatebion unigol i'n harolygon rhanddeiliaid blynyddol

**85**
o gyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain yn rhoi pwyslais ar lywio'r ffordd rydyn ni'n gweithredu

**13**
o grwpiau cynghorol y Bwrdd Rheoli i ddatblygu meysydd penodol yn y sefydliad

**22**
o drafodaethau a chyfweliadau dwys â Ffrindiau Beirniadol i gael adborth am weithgareddau a gweithrediadau



Ffigyrau o Ebrill 1 2019 – Mawrth 31 March 2021

# Uchafbwynt: **Llywodraethu ac Ymgynghori â'r Sector**

Un o'r prif bwyntiau a ddaeth i'r amlwg wrth ddatblygu Cynllun Strategol 2019-2022 oedd yr angen i sicrhau ein bod ni, fel sefydliad, yn gallu gwrando ar adborth pwysig gan randdeiliaid a dysgu o hwnnw.  Ers sylweddoli hyn, rydyn ni wedi datblygu amrywiaeth o systemau, arolygon a phrosesau sy'n gwahodd y sector i rannu adborth â ni yn rheolaidd, gan sicrhau y bydd y wybodaeth hon yn cael ei throsglwyddo i'r staff a'r Bwrdd Rheoli.

**Arolwg Rhanddeiliaid 2020**

Ym mis Ionawr 2020, gwahoddwyd ein cleientiaid, ein partneriaid a rhanddeiliaid ehangach i gymryd rhan yn ein hail Arolwg Rhanddeiliaid. Rhannwyd yr arolwg yn uniongyrchol â'n prif randdeiliaid a'i hyrwyddo drwy ein sianeli cyfathrebu allanol (y wefan, y cyfryngau cymdeithasol a'r newyddlen). Gwahoddwyd y rheini sy'n gyfarwydd â'r sefydliad i ymateb a chawson ni **148 o ymatebion** i'r arolwg. Drwyddi draw, ymatebodd cleientiaid a rhanddeiliaid yn gadarnhaol i weithgareddau Llenyddiaeth Cymru a'r adrannau gweithredol. Rhoddodd yr ymatebwyr hefyd adborth gwerthfawr am elfennau o'r sefydliad.

Dyma rai o'r prif ganfyddiadau: **dywedodd dros 95% o'r ymatebwyr eu bod yn debygol o argymell y prosiect diwethaf iddyn nhw fod yn rhan ohono i bobl eraill**, a dywedodd dros **90% bod y prosiect wedi cyd-fynd â'u disgwyliadau i raddau helaeth.** Cafodd ein blaenoriaethau trawsbynciol adborth calonogol, wrth i dros **90% o'r ymatebwyr ddweud bod ein gwaith ym maes Cynrychiolaeth a Chydraddoldeb yn gwneud gwahaniaeth i lenyddiaeth Cymru.** Cydnabu un cleient fod '**newid anferth** wedi bod mewn nifer o brosiectau a chynlluniau i **gyrraedd a meithrin a dathlu awduron a chyfranogwyr** o ystod eang o **gefndiroedd amrywiol**'.  Yn sgil COVID-19 ac **iechyd a lles** Cymru, dywedodd ein cleientiaid, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid y dylai ein hymdrechion barhau i ganolbwyntio ar **ddarparu gweithdai creadigol** i **blant a phobl ifanc** ac **unigolion a/neu gymunedau sydd ar gyrion cymdeithas.**

Rhoddodd yr ymatebwyr feirniadaeth adeiladol werthfawr, gan ddangos bod **bwlch yn ein rhaglen o weithgareddau wrth dargedu awduron 50+ oed.** Gofynnodd cyfranogwyr hefyd am weld **cynnydd yn yr adnoddau ysgrifennu digidol ac argraffedig** sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan Llenyddiaeth Cymru, a galw am roi rhagor o bwyslais ar **genres llenyddol penodol drwy ein gweithgareddau.** Mewn adborth ansoddol cadarnhaol gan ein cleientiaid, crybwyllwyd y cynnydd yn ein '**hymwybyddiaeth o'r angen am adborth**' a'r cynnydd yn ein 'hymdrechion i geisio canfod **beth yw barn darllenwyr/cyfranogwyr**'. Dywedodd pobl eraill eu bod yn falch 'bod y broses **werthuso** yn gyfle i roi mwy o **naratif**, a'i bod yn fwy **creadigol** na dim ond llenwi ffurflen arferol'.

Byddwn yn defnyddio adborth o Arolwg Rhanddeiliaid 2020 i helpu'r **sefydliad i ddatblygu ymhellach.** Byddwn hefyd yn llunio ac yn cyflwyno **adroddiad cymharu yn 2023** a fydd yn gwerthuso'r newidiadau yn argraffiadau rhanddeiliad drwy hyd oes Cynllun Strategol 2019-2022.

# Effaith a Chanlyniadau Sefydliadol

<table>
<tr><th></th><th>Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021</th><th>Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr– 31 Mawrth</th><th>Y dull o gasglu data</th></tr>
<tr><td>Effaith Sefydliadol</td><td>Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru</td><td rowspan="2">Mae’r arolwg hydredol dros dair blynedd wedi’i greu a’i anfon at sampl cynrychioladol o 10 o gleientiaid, sydd wedi’u contractio i’w gwblhau ddwywaith y flwyddyn. Mae tri chleient newydd wedi’u dewis i gymryd rhan yn Arolwg Hydredol 2020-2023, a byddwn yn ehangu’r sampl drwy gynnwys 3 chleient arall eleni.<br>Oherwydd COVID-19, y cyfraddau ymateb a chapasiti’r staff, rydyn ni ar hyn o bryd yn ailasesu’r modd y mae’r Arolwg Hydredrol yn cael ei gynnal er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni yn erbyn y targedau ac yn helpu i roi tystiolaeth ar gyfer ein canlyniadau. Byddwn yn cwblhau’r ailasesiad hwn erbyn dechrau’r haf, gyda’r bwriad o ailgyflwyno’r amserlen arferol erbyn yr hydref.<br>Yn y cyfamser, rydyn ni’n dal mewn cyswllt â’r sampl presennol o gleientiaid wrth iddyn nhw barhau i ymwneud â Llenyddiaeth Cymru, sefydliadau eraill a chyfleoedd proffesiynol.</td><td rowspan="2">Arolwg Hydredol 2019-22</td></tr>
<tr><td>Canlyniadau Sefydliadol</td><td>Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael:<ul><li>Gwell sgiliau siarad ac ysgrifennu</li><li>Mwy o hunanhyder</li><li>Rhagor o gyfleoedd gwaith</li><li>Llai o bobl yn teimlo'n ynysig</li><li>Risg is o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well</li><li>Cyfle i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd</li><li>Gwell gallu i ddangos empathi</li><li>Gwell sgiliau amlieithog</li></ul></td></tr>
</table>

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol 1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi **cynyddu 1.2 pwynt canran** o 8.2% yn 2016 i 9.4% erbyn 2021 **(**sy'n gyfwerth â **41,400 o bobl yn ychwanegol)** | Bydd Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau yn 2020 yn cael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2021. | Yn ôl adroddiad cryno Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru 2020, **cymerodd 11.5% o oedolion ran mewn ysgrifennu creadigol yn 2019**. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogi yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **110,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 82,000 yn 19/20. | Yn y cyfnod uchod, mae **18,928** o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau 'yn bersonol'. Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi ymwneud â **27,018** o bobl drwy ein gweithgareddau digidol, gan gynnwys ein hadnoddau a'n gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, ar fideos, ac ar-lein. | Ers mis Ebrill, mae **367,236 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â'n gweithgareddau (yn cynnwys ffigurau digidol). | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Mae o leiaf **34% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed, o gymharu â tua 20% yn 19/20. | Oherwydd COVID-19, **mae'r targed hwn wedi'i roi o'r neilltu dros dro**. Mae nifer o'n gweithdai wedi'u gohirio ac rydyn ni'n dal i ddatblygu a chyflwyno fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n holl gomisiynau digidol. | Fel ar y chwith. | Cynnydd ein prosiectau, ein hadroddiadau gwerthuso, a'n gwaith monitro ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **450 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 518 yn 19/20. | Mae **241 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn y cyfnod uchod. | Mae cyfanswm o **694 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd a gynigir o dan y golofn gweithgaredd datblygu i awduron. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu o leiaf **300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** ar gyfer egin awduron yn flynyddol, o gymharu â 293 yn 19/20. | Rydyn ni wedi darparu **87 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron.** Fel rhan o'n prosiect ysgrifennu a theatr gyda Frân Wen, rhoddodd yr awduron ar y rhaglen sesiynau cyflwyno syniadau i bartneriaid y prosiect a chyflwyno'u gwaith oedd ar y gweill. Cafodd un awdur ifanc ei gyfeirio at gyfle cysgodi a ddarparwyd o dan ein colofn cyfranogi. | Yn ystod 2020/2021, darparwyd **280 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol i egin awduron.** | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Mae ein gwybodaeth datblygu awduron ar-lein yn cael o leiaf **30,000 o ymweliadau unigryw** i'r tudalennau perthnasol yn flynyddol, mewn cymhariaeth â 35,000 yn 19/20. | Cafodd ein gwybodaeth ar-lein am ddatblygu awduron ei gweld 11,131 o weithiau i gyd, a **8,574 o weithiau'n unigryw.** | I gyd, gwelwyd ein tudalennau **33,463 o weithiau'n unigryw.** | Google analytics |
| Darperir cefnogaeth barhaus i gyfanswm o **80 awdur ifanc** (rhwng 16 a 30 oed) yn flynyddol, o gymharu â 140 | Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i **91 o awduron ifanc** yn y cyfnod uchod. Er enghraifft, trefnwyd digwyddiad rhyngweithio i grŵp o 10 o awduron ifanc i gyfarfod ag awduron profiadol a staff o'r diwydiannau creadigol er mwyn trafod cyfleoedd a gyrfaoedd. Cafodd yr awduron ifanc fanylion cyswllt unigolion a sefydliadau y gallen nhw gysylltu â nhw yn y dyfodol. | Rhoddwyd cefnogaeth barhaus i **175 o awduron ifanc** yn 2020/2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae o leiaf **200 awdur profiadol** a **250 darn o waith llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol, o gymharu a 250 a 244 yn 19/20. | Mae **62 o awduron profiadol** a **238 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel. Cymerodd Bardd Cenedlaethol Cymru ran yn Nigwyddiad Coffa Cenedlaethol y Coronafeirws a pherfformiodd gerdd a ysgrifennwyd yn benodol ar gyfer y digwyddiad. | Mae **234 o awduron profiadol** a **410 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel yn 2020/2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau |
| Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar **o leiaf 20 partneriaeth a phrosiect cyfnewid** y tu allan i Gymru yn flynyddol, o gymharu â 21 yn 19/20. | Rydyn ni wedi hwyluso a chydweithio ar **6 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid** y tu allan i Gymru. Roddem yn bartner a gefnogodd Seminar Lenyddol y British Council. Nid yn unig oedd y rhaglen yn cynnwys awduron o Gymru rydyn ni'n gweithio gyda nhw, ond cymerodd ein Pennaeth Rhaglenni ran yn y sgyrsiau byw hefyd. | Rydyn ni wedi hwyluso a chydweithio ar **18 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru.** | |
| Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf **35 comisiwn y flwyddyn** yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill , o gymharu a 43 yn 19/20. | Mae **45 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill yn y cyfnod uchod. Comisiynwyd Bardd Cenedlaethol Cymru gan BT i ysgrifennu cerdd yn dathlu cyfraniad pwysig cysylltiadau a gweithwyr canolfannau cyswllt wrth gadw pobl a'r wlad mewn cyswllt â'i gilydd. | Drwy ein hymyriadau ni, mae **114 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol gan sefydliadau eraill. | |
| Mae o leiaf **24 egin awdur** yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol, o gymharu â54 yn 19/20. | Mae **33 o egin awduron** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel yn y cyfnod uchod. | Mae **57 o egin awduron** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol 1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **70% o'n data** o brosiectau gweithredol gweithgarwch wedi'i storio yn ein hwb monitro a gwerthuso canolog | Mae tua **79% o'r data** o'n gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol yn cael eu storio yn ein porth monitro a gwerthuso canolog. Bydd y Cydlynydd Creadigol sydd newydd ei phenodi yn arwain y gwaith o fonitro a gwerthuso ein gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol er mwyn diweddaru'r systemau, gan gynnwys ein porth canolog. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol |
| Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Cyflwynwyd ein Hadroddiad Blynyddol a'n Hadroddiad Canol Tymor yn 2020. Darparodd aelodau'r Uwch Dîm Arwain sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid i unigolion proffil uchel (e.e. o Lywodraeth Cymru) ac i gyllidwyr er mwyn egluro ein heffaith ac eirioli dros lenyddiaeth. . | Mae 1 Adroddiad Blynyddol yn dangos ein heffaith wedi'i gylchredeg. | |
| Cynhyrchwyd **12 adroddiad gwerthuso misol** a **4 adroddiad gwerthuso chwarterol** | Dyma **bedwerydd adroddiad gwerthuso chwarterol** 2020/2021. Rydyn ni'n bwriadu darparu adroddiadau misol i'r Uwch Dîm Arwain erbyn diwedd yr haf. | Rydym wedi creu **3 adroddiad gwerthuso chwarterol** yn y cyfnod uchod. | |
| **Caiff 85% o'r prosiectau newydd neu brosiectau parhaol eu cyflwyno** i'r Uwch Dîm Rheoli, ac mae pob un yn cyfeirio at bwyntiau dysgu o'n dadansoddiad [**RHEWYD 20/21**] | Rydyn ni wedi diwygio ein system ar gyfer cynnig syniadau am brosiectau, ac mae **100% o'r syniadau am brosiectau newydd** wedi'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain. Oherwydd newid yn ein rhaglen o weithgareddau (COVID-19), rydyn ni wedi clustnodi cyllid ac wedi annog y staff i gyflwyno syniadau am weithgareddau sy'n adlewyrchu ein cyfeiriad strategol, ein gwerthoedd a'n cenhadaeth. | Ers inni ddiwygio ein system ar gyfer cynnig syniadau am brosiectau, mae **100% o'r syniadau am brosiectau newydd** wedi'u cyflwyno i'r Uwch Dîm Arwain. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol 1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae **100% o'r staff** wedi mynychu **dau sesiwn hyfforddi ar draws timau** | Mae **100% o'r staff** wedi bod i **3 sesiwn hyfforddi i dimau amrywiol** yn y cyfnod uchod. Darparwyd hyfforddiant polisi i'r tîm ym mis Hydref 2020 am Gynllun Gweithredu'r Gymraeg a Chynllun Gweithredu'r Amgylchedd, ill dau ar eu newydd wedd, a bu'r holl staff mewn sesiwn Cynllunio Creadigol ym mis Hydref. | Mae **100% o staff** wedi mynychu o leiaf **6 sesiwn hyfforddiant i'r holl staff.** Cymerodd 15% ran mewn sesiynau pellach. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **2 aelod o staff** wedi elwa ar gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) | Mae **2 aelod o staff** wrthi'n elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus. Fel rhan o'i rôl, mae ein Prentis Cadw Llyfrau yn dilyn cwrs sydd wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ac mae ein Pennaeth Datblygu a'n Dirprwy Brif Weithredwr yn dal i gael ei mentora i ddatblygu ein cynnig masnachol. | I gyd, mae **5 aelod o staff** wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol. | |
| Mae lefelau boddhad staff wedi cynyddu **o leiaf 7% [RHEWYD 20/21]** | Rydyn ni wrthi'n cwblhau'r gwaith ar yr **arolwg o les y staff**. Rydyn ni'n dal i flaenoriaethu lles y staff yn y cyfnod hwn ac yn rhannu adnoddau'n gyson i gefnogi'r tîm wrth i bobl weithio gartref. | Fel ar y chwith. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad |
| Mae **o leiaf 5%** o'n cyflogeion, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr yn bobl dduon, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, mae gan **5%** anableddau, ac mae **1** o'r rhain yn uwch aelod o staff ac yn aelod o'r Bwrdd (yn ddibynnol ar fod lleoedd gwag yn codi) | Mae **17%** o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a Chyfarwyddwyr o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ac mae gan **6%** anableddau. Mae **4** o'r rhain mewn swyddi uwch. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn wedi gweithio gydag o leiaf **7 gwirfoddolwr** | Mae **5 gwirfoddolwr** wedi gweithio gyda ni yn y cyfnod uchod drwy ein gweithgareddau. | Rydyn ni wedi gweithio gyda **19** gwirfoddolwr yn y cyfnod uchod. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol 1 IOnawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **2 gais grant Ymddiriedolaethau a Sefydliadau llwyddiannus** ar gyfer cyllid tuag at waith cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw yn Nhŷ Newydd | Rydym yn aros i glywed gan **5 Ymddiriedolaeth a Sefydliad** y cyflwynwyd ceisiadau iddynt am gyllid er mwyn gwneud **gwaith cadwraeth yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**. | Fel ar y chwith. | Ein cyfrifon chwarterol a chofnod o waith codi arian |
| **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** wedi'i lansio, ac o leiaf **30** o Ffrindiau newydd yn ymuno [**RHEWYD 20/21]** | Byddwn yn lansio **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** yn 2021-22 ochr yn ochr â Chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru er mwyn nodi pen-blwydd y sefydliad yn ddeg oed. | Fel ar y chwith. | |
| **Manylebau gwaith newydd** wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr [**RHEWYD 20/21]** | Tra bo’r ganolfan ar gau oherwydd COVID-19, bydd oedi yn y gwaith. | | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| **Adnewyddu 2 ystafell wely** i safon uchel [**RHEWYD 20/21]** | | | |
| Mae o leiaf **85%** o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd **90%** y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol [**RHEWYD 20/21]** | Oherwydd COVID-19, mae’r gwaith i gasglu’r data hwn wedi’i roi o’r neilltu am y tro. | Fel ar y chwith. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Llywodraethu ac Ymgynghori**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol 1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Cynnal arolwg gyda grŵp cynrychioladol o **o leiaf 120 unigolyn** o grwpiau rhanddeiliaid ac sy'n cynrychioli partneriaid strategol o leiaf unwaith y flwyddyn | Cafodd Arolwg Rhanddeiliaid 2020 ei gynnal yn llwyddiannus, a chawson ni **gyfanswm o 148 o ymatebion.** Bydd y wybodaeth hon yn bwydo i mewn i ddatblygiadau sefydliadol yn ystod 2021/2022. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cynnal cyfweliadau neu drafod ein gwaith gyda rhwydwaith gynrychioladol o **o leiaf 18 Cyfaill Beirniadol** o leiaf unwaith y flwyddyn | Rydyn ni wedi trafod ein gwaith â **3 o Ffrindiau Beirniadol** yn y cyfnod uchod. Rydyn ni wedi ailasesu ein rhestr o unigolion posibl y gellid cysylltu â nhw i drafod ein cynlluniau wrth ymgynghori ar y Cynllun Strategol newydd. | Mae **5 gyfarfod â Ffrindiau Beirniadol** wedi'u cynnal yn y cyfnod uchod. | |
| Cynnull **3 gyfarfod Grŵp Ymgynghori'r Bwrdd Rheoli**, **15 cyfarfod Gweithrediadau'r Uwch Dîm Rheoli** a **2 sesiwn Cynllunio Creadigol i'r holl staff** yn flynyddol | Mae **Grŵp Ymgynghorol y Bwrdd Rheoli** wedi cyfarfod **4 gwaith** a'r **Uwch Dîm Arwain** wedi cynnal cyfarfodydd gweithredol **12 gwaith**. Bu'r **holl aelodau o staff yn rhan o sesiwn Cynllunio Creadigol** ym mis Chwefror, gyda'r nod o annog myfyrio fel grŵp cyn diwedd y flwyddyn ariannol. | Cafodd **8** cyfarfod o **Grŵp Cynghori'r Bwrdd Rheoli** (Cyfarfodydd Bwrdd Argyfwng COVID-19) a **61** cyfarfod gweithredol o'r **Uwch Dîm Rheoli** eu cynnull. **Mae 2 sesiwn cynllunio creadigol i staff amrywiol** wedi'i chynnal hyd yma. | |
| **Rhannu dadansoddiad** o adborth rhanddeiliaid drwy adroddiadau gwerthuso misol a chwarterol, a chyfeirio ato wrth wneud penderfyniadau | Rydyn ni'n parhau i **rannu dadansoddiadau o adborth rhanddeiliaid** yn ein hadroddiadau gwerthuso chwarterol, ac rydyn ni'n cyfeirio at hyn yn Adroddiad y Prif Weithredwr. | Fel ar y chwith. | Cynigion prosiect a chofnodion cyfarfodydd |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr – 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Peidio darparu mwy na **10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn** | Rydyn ni wedi sefydlu Rhaglen Weithgareddau newydd, sydd wedi'i diweddaru, ar gyfer 2021/2022. Oherwydd COVID-19, rydyn ni'n rhagweld y bydd hon yn cael ei haddasu yn ystod y flwyddyn. Ar hyn o bryd mae gennyn ni 14 o gyllidebau prosiectau gweithgareddau'n fyw, ac mae **9 o'r rhain yn brosiectau rydyn ni'n eu darparu'n uniongyrchol**. | **Fel ar y chwith.** | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cefnogi **o leiaf 30 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid** fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol, a chefnogi 70 arall â chefnogaeth mewn nawdd cyffredinol | Rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **22 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 13 prosiect**. Er enghraifft, helpwyd First Campus i sefydlu grŵp Darllen er Lles ar gyfer darllenwyr ifanc, a neilltuwyd diwrnodau o gynllun gwaith y Children's Laureate Wales i gyfrannu at hyn. Aethon ni ati hefyd i drefnu sesiwn hyfforddiant i hwyluswyr posibl, a hynny gan y bardd a'r therapydd, Jill Teague. Cafwyd adborth cadarnhaol i hyn. | I gyd, rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **43 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 41 prosiect arall**. | |
| Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i **o leiaf 700 o unigolion, grwpiau a sefydliadau** yn flynyddol | Yn y cyfnod uchod, rydyn ni wedi darparu 87 awr o gefnogaeth a chefnogaeth nad yw'n ariannol i **69 o unigolion, grwpiau a sefydliadau**. Rydyn ni wedi ymuno â'r sefydliadau sy'n cefnogi Connor Allen, yr egin awdur, i ddarparu'r cynllun 'LOYALTY' i artistiaid o Gymru sydd o gefndiroedd Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. | Rydym wedi rhoi cyllid a/neu gefnogaeth nad yw'n ariannol i 387 o **unigolion, grwpiau a sefydliadau** ers mis Ebrill 2020. | |
| Rydym wedi ysgogi **o leiaf 10** prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol **mewn meysydd lle mae angen** | Rydyn ni wedi ysgogi 11 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain, mewn ardaloedd lle mae angen. | I gyd, mae **19 prosiect llenyddol newydd** wedi'u hysgogi mewn ardaloedd ble mae angen. | |

## Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

Ymwneud â'n Sector

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2021 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ionawr– 31 Mawrth | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Mawrth 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Gweithredu fel arweinydd y sector a hwylusydd i lenyddiaeth yng Nghymru, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | Mae Llenyddiaeth Cymru yn **parhau i weithredu fel arweinydd yn y sector a hwylusydd** i lenyddiaeth yng Nghymru a'r tu hwnt.<br><br>Mae nifer o aelodau'r staff yn mynychu ac yn cyfrannu'n rheolaidd at drafodaethau ehangach yn y sector, gan gynnwys Cynghrair Diwylliant Cymru a What Next? Cymru. Mae'r gwaith hwn wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i gadw cysylltiadau pwysig yn y sector, ac i gynnal trafodaethau prydlon am syniadau a chynlluniau newydd – gan gynnwys gweithio gyda chydweithwyr eraill yn y sector i ddatblygu fframwaith Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau i'r celfyddydau yng Nghymru, ynghyd â Chontract Diwylliannol newydd a allai gael effaith bellgyrhaeddol. | Fel ar y chwith. | Gwaith Hwyluso'r Sefydliad yn y Sector |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi **Sefydliadol a Gweithredol** i'w Dysgu

### Dysgu Sefydliadol
### 1 Ionawr – 31 Mawrth 2021

- Wrth weithio gyda Riot Communications, asiantaeth cysylltiadau cyhoeddus, i baratoi'r datganiad i'r wasg ar gyfer Cynrychioli Cymru: Datblygu Awduron o Liw, daeth i'r amlwg bod bwlch yn y dystiolaeth feintiol sy'n rhoi darlun o'r sector o ran pwy sy'n ymwneud â llenyddiaeth a'u diddordebau. O ganlyniad, rydyn ni'n edrych ar y posibilrwydd o gomisiynu prosiect **Ymchwil 'Cyflwr y Genedl'** a fydd yn ceisio creu data am y modd y mae'r cyhoedd yng Nghymru yn ymwneud â llenyddiaeth. Gallai hynny helpu i lywio a rhoi sail i'n strategaeth, ein rhaglenni, a'n gwaith comisiynu er mwyn ehangu cyrhaeddiad y sector a'r modd mae'n cael ei gynrychioli.

- Yn dilyn lansio ein Hadroddiad Canol Tymor 2019/2020, roedd modd **ymwneud â rhanddeiliaid lefel uchel a chyllidwyr** wrth i'r Uwch Dîm Arwain a'r Bwrdd Rheoli gynnal nifer o gyfarfodydd gyda'r nod o gyfleu ein heffaith a'n nod fel sefydliad. Roedd hyn yn arbennig o ddefnyddiol gan inni allu dangos, yn enwedig i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid, ein bod yn sefydliad celfyddydol arweiniol sydd â'r profiad, yr ymrwymiad a'r gallu i gefnogi yng nghyfnod adfer COVID-19 a gweithgarwch ehangach.

- Ein prosiectau mwyaf llwyddiannus yn 2020/2021 fu'r rheini lle gweithiwyd gydag amrywiaeth o **bartneriaid,** o fewn y diwydiannau creadigol a'r tu hwnt iddyn nhw. Wrth inni gamu i'r flwyddyn ariannol nesaf gyda mymryn yn llai o risg o ran ymrwymo cyllid ac adnoddau, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd datblygu ein **gwaith partneriaeth** gwerthfawr er budd cynulleidfaoedd creadigol, darllenwyr ac awduron Cymru.

### Prosiectau Gweithredol
### 1 Ionawr – 31 Mawrth 2021

- Cynhaliwyd **sesiwn hyfforddiant** i roi blas gan y cydweithfeydd ysgrifennu, 'Where I'm Coming From' ac 'Y Stamp', a hynny am weithio mewn ffordd **wrth-hiliol.** Er bod yr holl sesiwn yn hynod o werthfawr a buddiol inni, fe sylweddolwyd yn arbennig pa mor bwysig oedd gwella'r modd rydyn ni'n **diogelu** awduron a chleientiaid drwy ein deunydd **cyfathrebu.** Roedd hyn yn arbennig o berthnasol wrth fynd ati i gyhoeddi **Cynrychioli Cymru: Datblygu Awduron o Liw.** Gan hynny, rydyn ni'n cyflwyno **gweithdrefn ddiogelu** fanwl i sicrhau y bydd aelodau'r garfan yn cael eu diogelu os bydd digwydd i bobl geisio gwneud niwed iddyn nhw neu fynegi casineb ar y cyfryngau cymdeithasol.

- Ym mis Mawrth, darparodd y **Cydlynydd Cyfathrebu sesiwn Cynllunio Creadigol** a ganolbwyntiai ar fyfyrio yn bersonol ac fel sefydliad ar gyflawniadau'r flwyddyn a fu, a'r gwersi i'w dysgu. Canmolodd y staff natur y sesiwn hon gan awgrymu y dylid creu agenda debyg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, yn unol â'r broses Adolygu Datblygiad Proffesiynol, er mwyn annog hunanwerthuso a gwerthuso drwy'r holl sefydliad.

- Cafodd yr Uwch Dîm Arwain a staff ehangach **hyfforddiant mewn Arwain a Rheoli Llinell Da** gan Lesley Rossiter, ac amlygodd hynny nad yw'r modd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud wastad mor glir ag y dylai fod. Felly, cydnabuwyd bod angen inni edrych eto ar ein fframwaith Cyflwyno Syniadau er mwyn gwreiddio newid diwylliannol yn y sefydliad a gwneud yr elfen hon yn fwy ffurfiol. Rydyn ni hefyd yn ailddylunio sut mae'r Uwch Dîm Arwain yn gweithio, ac yn creu is-grwpiau llai i helpu'r Prif Weithredwr i ddatblygu gwahanol adrannau yn y sefydliad mewn ffordd sy'n rhoi mwy o ffocws i bethau.

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Gwerthuso

## Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

| Gweithgareddau | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Ionawr– 31 Mawrth 2021 | Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol |
|---|---|---|
| **Bardd Preswyl: Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** | Mewn partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, lansiwyd galwad gyhoeddus am fardd preswyl newydd i gefnogi datblygiad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd y meini prawf yn yr alwad yn targedu 'egin awduron' a oedd 'o dan 25 oed', i gyd-fynd ag amcanion strategol y prosiect. Fodd bynnag, roedd y geiriad penodol hwn yn awgrymu bod statws 'egin awdur' yn gyfystyr ag oedran. O ganlyniad, addaswyd geiriad yr alwad er mwyn sicrhau bod ein neges yn adlewyrchu amcanion y prosiect yn well. | Wrth inni ddechrau datblygu ein Cynllun Strategol newydd, byddwn yn ystyried yn fanylach y geiriad a ddefnyddir i ddiffinio cyfnod awdur yn ei yrfa, ac yn gweithio gyda'r sector i wneud hyn. |
| **Seminar Lenyddol y British Council** | Mewn partneriaeth â'r British Council a Literaturhaus Stuttgart, cynhaliwyd y Seminar Lenyddol gwbl ddigidol gyntaf ym mis Mawrth. Wrth werthuso'r prosiect, gwelwyd bod nifer o ganlyniadau llwyddiannus yn gysylltiedig â darparu'r prosiect yn ddigidol, gan gynnwys denu mwy o gyfranogwyr na'r disgwyl, cynnwys mwy o awduron amrywiol o Gymru, a'r gallu i gynnig cyfieithu ar y pryd gan balanteipydd. O ganlyniad i gynnal y digwyddiadau ar Zoom/YouTube, mae modd i gynulleidfaoedd rhyngwladol ehangach byth bellach weld rhannau o'r rhaglen, gan gyfrannu at waddol y rhaglen ac at hyrwyddo awduron o Gymru. | Defnyddio mwy ar ein platfformau digidol, fel Zoom/YouTube, ar gyfer digwyddiadau byw a rhai sydd wedi'u recordio ymlaen llaw i gyrraedd cynulleidfaoedd ehangach ac i hyrwyddo awduron Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. |
| **Bardd Plant Cymru (Murluniau Awr y Ddaear)** | Mewn partneriaeth â WWF Cymru, roedd gennyn ni gynlluniau gwreiddiol i roi'r un sylw ar y cyfryngau cenedlaethol i'r tair tref lle gosodwyd celf gyhoeddus drwy brosiect Murluniau Awr y Ddaear. Fodd bynnag, dangosodd y cyfryngau cymdeithasol a rhaglenni teledu a radio ddiddordeb yn gyflym iawn yn y murlun cyntaf, felly penderfynwyd rhoi sylw i hwnnw cyn cwblhau'r ddau arall. Arweiniodd hyn at roi mwy o sylw i'r murlun cyntaf, ond roedd y sylw'n fwy na'r disgwyl ac elwodd y prosiect ehangach o hynny. | Parhau i gymryd risgiau, pan fydd hynny'n berthnasol a phan fyddwn wedi meddwl yn ofalus am hynny, wrth ddarparu gweithgareddau sydd o fudd i brosiectau'n ehangach ac i gyfranogwyr. |